# LLOYD, MORGAN (1820 - 1893), bargyfreithiwr a gwleidydd

**Enw:** Morgan Lloyd
**Dyddiad geni:** 1820
**Dyddiad marw:** 1893
**Priod:** Priscilla Lloyd (née Lewes)
**Rhiant:** Morris Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bargyfreithiwr a gwleidydd
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yng Nghefngellgwm, Trawsfynydd, 14 Gorffennaf 1820, mab Morris Lloyd, amaethwr. Dywedir fod y teulu yn gangen o deulu Llwydiaid Cynfal. Ar y cychwyn bwriadai Morgan Lloyd fod yn fesurydd tir, a bu'n cynorthwyo John Matthews i fapio plwyf Trawsfynydd yn 1839. Ar ôl hynny aeth i Goleg y Methodistiaid Calfinaidd, y Bala, ac oddi yno i Brifysgol Edinburgh. Penderfynodd fyned yn fargyfreithiwr, ymaelododd yn y Middle Temple yn Llundain, a galwyd ef at y Bar yn Ionawr 1847. Ymunodd â chylchdaith Caer a Gogledd Cymru, a daeth i fusnes mawr yn fuan; ystyrid ef yn neilltuol fedrus fel dadleuydd dros yr amddiffyniad, ac yn ei apel at reithwyr. Am amryw flynyddoedd yr oedd yn un o ddadleuwyr blaenaf y gylchdaith. Gwnaed ef yn Q.C. yn 1873, ac etholwyd ef yn ' Bencher ' yn y Middle Temple yn 1875. Ysgrifennodd ar faterion cyfreithiol, ac ef oedd awdur *The Law and Practice of the County Courts*. Yn 1868 bu'n ymgeisydd Rhyddfrydol aflwyddiannus yn etholaeth bwrdeisdrefi Môn, ond yn 1874 llwyddodd i ennill y sedd a bu'n ei chynrychioli hyd 1885, pan unwyd y bwrdeisdrefi ag etholaeth y sir. Yn y flwyddyn honno bu Morgan Lloyd yn ymgeisydd Rhyddfrydol answyddogol ym Meirion; rhannodd ei ymgeisiaeth y gwersyll Rhyddfrydol, gan fod y Gymdeithas Ryddfrydol wedi dewis H. Robertson yn ymgeisydd swyddogol. Yr oedd W. R. M. Wynne, Peniarth, ar y maes fel Ceidwadwr. Cafodd Morgan Lloyd gefnogaeth llawer yn Ffestiniog a'r ardaloedd cylchynol, ond Robertson a enillodd y dydd. Torrodd Morgan Lloyd â Gladstone ar gwestiwn ymreolaeth Iwerddon, ac yn 1892 yr oedd yn ymgeisydd Undebol Rhyddfrydol am sedd Môn, ond colli a wnaeth. Cymerai ddiddordeb mewn addysg yng Nghymru; yr oedd yn is-drysorydd pwyllgor mudiad 1863 i gael prifysgol i Gymru, a bu am rai blynyddoedd yn ysgrifennydd mygedol i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth. Bu'n briod ddwywaith, y tro cyntaf gyda merch i'r llyngesydd Elphinstone Fleming, ac yn ail gyda Priscilla, merch James Lewes, Cwmhyar, Sir Aberteifi. Bu farw yn Brook Green, ger Llundain, 5 Medi 1893, a chladdwyd ef yng nghladdfa Willesden.

## Awdur

**Edward Morgan Humphreys**, (1882 - 1955)

## Ffynonellau


*Y Geninen* (G yl Dewi) 1894, 29

E. A. Williams, *Hanes Môn yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Llangefni 1927)

W. C. Davies a W. L. Jones, *The History of the University of Wales*

gwybodaeth breifat


## Darllen Pellach

Archifau LlGC: Mr Morgan Lloyd a Chynrychiolaeth Sir Feirionydd

Erthygl Wicipedia: Morgan Lloyd

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76661867

Wikidata: Q6911751


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu